Diogelwch mewn Pyllau Nofio Preifat

Diogelwch mewn Pyllau Nofio Preifat – Codi ymwybyddiaeth o'r risg o ddamweiniau ac anafiadau mewn pyllau nofio preifat.

Cynnwys:

Pennod 1	Datganiad o ddiben – nodau ac amcanion y Fenter
Pennod 2	Materion i'w hystyried cyn sefydlu Menter
Pennod 3	Cynnal yr ymgyrch i orfodi camau Diogelwch mewn Pyllau Nofio Preifat
Atodiad 1	Taflenni gwybodaeth i ddefnyddwyr pyllau nofio
Atodiad 2	Taflen wybodaeth i weithredwyr pyllau nofio
Atodiad 3	Llythyr enghreifftiol at weithredwyr pyllau nofio yn rhoi gwybod am y Fenter
Atodiad 4	Ffurflen Safonol ar gyfer Archwilio Pyllau Nofio

Pennod 1

Cyflwyniad – nodau ac amcanion y Fenter

Her Iechyd Cymru

1. Dewiswyd themâu allweddol Her Iechyd Cymru gan eu bod yn cael eu hystyried fel y materion sy'n gyfrifol am gyfran sylweddol o'r anhwylderau y gellid eu hosgoi. Un o'r themâu allweddol yw Damweiniau ac Anafiadau. Lluniwyd y fenter hon er mwyn codi ymwybyddiaeth a lleihau nifer yr anafiadau a'r marwolaethau sy'n gysylltiedig ag adloniant dŵr (pyllau nofio preifat) drwy raglen orfodaeth ac addysgu wedi ei thargedu.

2. Mae nifer o wahanol fathau o ddamweiniau a all ddigwydd mewn amgylchedd pwll nofio, yn amrywio o lithro i farwolaeth. Mae damweiniau boddi yn fwyaf arbennig yn gallu effeithio ar blant ifanc, a gall ychydig funudau o dan y dŵr fod yn angheuol. Mae llawer o bobl sy'n cael eu tynnu o'r dŵr yn fyw yn datblygu niwed difrifol i'r ymennydd o ganlyniad i ddiffyg ocsigen, a gall anafiadau difrifol ddigwydd pan fo unigolion yn plymio neu'n neidio i mewn i ddŵr bas neu'n llithro ar y llawr caled sydd o amgylch pwll nofio. Dengys ffigurau a ryddhawyd ar gyfer 2002[1] fod 15 (4%) o'r marwolaethau o ganlyniad i foddi a ddigwyddodd yn y DU wedi digwydd mewn pyllau nofio. Nid oes dadansoddiad ar gael o'r ffigurau hyn fesul pwll cyhoeddus, preifat neu ddomestig.

3.

Achosion o foddi yn y DU yn 2002 yn ôl lleoliad		
Arfordir	87	20%
Llynnoedd a Chronfeydd Dŵr	50	12%
Baddon yn y Cartref	42	9.8%
Camlesi	34	8%
Dociau a Harbwr	18	4%
Pyllau Nofio	15	4%
Pyllau Dŵr yn yr Ardd	13	3%
Arall	1	0.2%
Cyfanswm	**427**	

4. Nid oes ffigurau cenedlaethol wedi eu casglu ar gyfer damweiniau ac anafiadau sy'n digwydd mewn pyllau nofio. Lle bo'r digwyddiad yn arwain at ddamwain hysbysadwy hysbysir yr awdurdod lleol perthnasol am y ddamwain neu'r anaf a bydd yr awdurdod hwnnw'n gwneud ymchwiliad. Lle nad yw'r ddamwain neu'r anaf yn ddamwain hysbysadwy bydd yn cael ei gofnodi yn y llyfr damweiniau a gedwir ar y safle. Gellir archwilio'r llyfr damweiniau hwn drwy archwiliad safle gan swyddfa'r awdurdod lleol.

5. Gan nad oes ffigurau cenedlaethol ar gael ar gyfer damweiniau ac anafiadau a ddioddefir gan ddefnyddwyr pyllau nofio nid yw'n bosib cyfrifo'u cost. Mae'r GIG yn wynebu costau wrth ddarparu triniaeth lle bo angen. Gall y costau

hyn fod yn sylweddol lle bo achosion o ddifrod i'r ymennydd neu barlys cyfan, ac mae'r gost bersonol i'r unigolyn dan sylw a'i deulu'n uchel iawn ac yn para am gyfnod maith. Gall anafiadau i'r ymennydd fyrhau oes person. Wynebir costau hefyd o ganlyniad i golli cynhyrchiant lle bo person yn absennol o'r gwaith o ganlyniad i'r anaf.

6. Cynlluniwyd yr ymyriad hwn er mwyn codi ymwybyddiaeth o beryglon damweiniau mewn pyllau nofio preifat. Mae'r pyllau nofio hyn yn ddarostyngedig i drefniadau gorfodaeth yr awdurdod lleol dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 ac ati, ac o ganlyniad byddent yn rhan o raglen orfodaeth, y penderfynid ar ei hamseriad ar sail asesiad risg. Mae codi ymwybyddiaeth o'r risg o ddamweiniau ac anafiadau yn helpu i'w hatal rhag digwydd. Mae'r ymyriad hwn felly'n rhoi sylw i un o themâu allweddol Her Iechyd Cymru.

[1] ROSPA

Pennod 2

Diogelwch mewn Pyllau Nofio Preifat – Cynyddu ymwybyddiaeth o'r risg o ddamweiniau ac anafiadau mewn pyllau nofio preifat.

1. Ystyriaethau cychwynnol

Mae angen rhoi sylw i ystyriaethau penodol cyn cychwyn ar y prosiect hwn, gan gynnwys;

a. Beth yw'r grŵp targed?
b. A fydd yr ymyriad yn sicrhau'r canlyniad bwriedig?
c. Sut y gellir cyrraedd y grŵp targed?
d. Pwy yw'r partneriaid allweddol yn y fenter?
e. Sut fydd y fenter yn cael ei gwerthuso?
f. A fydd y fenter yn cynnig gwerth am arian?

2. Grŵp Targed

Mae dau grŵp targed ar gyfer y fenter hon. Y grŵp cyntaf yw gweithredwyr pyllau nofio preifat, a'r ail yw defnyddwyr y pyllau.

Dewiswyd pyllau nofio preifat ar gyfer y fenter hon gan eu bod yn cael eu harchwilio gan awdurdodau lleol dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 ac ati fel rhan o'r trefniadau archwilio, ac oherwydd bod yr awdurdod lleol yn gwybod am eu lleoliad. Nid yw pyllau nofio awdurdodau lleol yn cael eu cynnwys gan nad yw'r rhain yn cael eu harchwilio gan yr awdurdod lleol, ac nid yw pyllau nofio domestig yn cael eu cynnwys gan nad oes mynediad cyhoeddus cyffredinol iddynt.

Mae'n hawdd dod o hyd i'r grŵp targed cyntaf, sef gweithredwyr pyllau nofio preifat. Gellir defnyddio cronfeydd data awdurdodau lleol a gwneud rhestr o leoliad y pyllau ac enwau'r gweithredwyr.

Mae'r ail grŵp targed yn fwy cyfnewidiol. Gall defnyddwyr pyllau nofio preifat fod yn grŵp penodol, fel aelodau o glwb hamdden preifat neu gallant fod yn bobl sy'n digwydd bod yn aros mewn gwesty neu'n ymweld â pharc gwyliau. Bydd y grŵp hwn yn anos i'w gyrraedd oherwydd bydd ei aelodaeth yn newid o ddydd i ddydd ac nid yw'n debygol y bydd rhyngwyneb pwrpasol rhwng y rhai sy'n bartneriaid yn y fenter hon ac aelodau'r grŵp.

3. Sicrhau'r canlyniad bwriedig

Y canlyniad bwriedig ar gyfer y fenter hon yw cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith y ddau grŵp targed o'r risg o ddamweiniau ac anafiadau mewn pyllau nofio preifat, ac o'u hamgylch, a thrwy hynny leihau nifer y cyfryw ddamweiniau ac anafiadau. Disgwylir y bydd cynyddu ymwybyddiaeth gweithredwyr pyllau nofio yn peri iddynt sicrhau bod pob cam rhesymol yn cael ei gymryd er mwyn atal damweiniau ac anafiadau rhag digwydd, a bod amgylchedd y pwll yn cael ei wneud mor ddiogel ag sy'n bosib. Hyderir y bydd cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith defnyddwyr y pwll yn gwneud iddynt gymryd llai o risg yn y pwll nofio ac o'i amgylch.

4. Cyrraedd y Grŵp Targed

Gellir dod o hyd i'r grŵp targed cyntaf, sef gweithredwyr pyllau nofio, drwy ddefnyddio cronfa ddata'r awdurdod lleol. Awgrymir eu bod yn cael eu cyrraedd drwy raglen archwilio wedi ei thargedu, gan roi rhybudd iddynt ymlaen llaw. Byddai'r archwiliadau a fyddai'n rhan o'r rhaglen yn bodloni gofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 ac ati, ond byddai'n rhoi pwyslais ychwanegol ar y pwll nofio a'r ardal yn union o'i amgylch, a'r arferion a'r trefniadau a ddefnyddir yno. Byddai gweithredwyr y pyllau hefyd yn cael gwybodaeth am ddiogelwch mewn pyllau nofio i'w cynnwys yn eu Hasesiadau Risg, Cynllun Gweithredu Arferol a Chynllun Gweithredu mewn Argyfwng.

Cyrhaeddir yr ail grŵp targed drwy ddarparu cyngor ar ffurf taflenni a phosteri yn ymwneud ag ymddygiad diogel o amgylch pyllau nofio. Gellir arddangos posteri mewn ystafelloedd newid, o amgylch ochrau'r pwll ac mewn mannau a ddefnyddir gan y cyhoedd mewn parciau gwyliau a meysydd carafannau, a gellir gadael taflenni i bobl eu codi mewn clybiau hamdden a gwestai, yn ogystal â darparu taflenni mewn pecynnau wrth i bobl gyrraedd parciau gwyliau a'u gadael mewn carafannau ac ystafelloedd.

5. Pwy yw'r partneriaid allweddol yn y fenter?

Gan fod y fenter hon yn seiliedig ar orfodaeth nid oes llawer o bartneriaid. Awgrymir y byddai Adran Iechyd yr Amgylchedd yn cymryd yr awenau, ac y byddai'r Fforwm Diogelwch yn y Gymuned yn cynnig cymorth yn ôl y galw. Efallai y byddai gan gyrff gwirfoddol fel ROSPA ddiddordeb yn y fenter, ond yn amlwg rhaid gofalu nad oes gormod o bartneriaid mewn menter sy'n seiliedig ar orfodaeth. Awgrymir y dylai adran Cysylltiadau Cyhoeddus yr awdurdod lleol a'r cyfryngau lleol fod yn bartneriaid mewn digwyddiad i roi mwy o sylw i fater diogelwch mewn pyllau nofio a hyrwyddo'r cyngor ynglŷn â diogelwch sy'n ganolog i'r ymgyrch.

6. Sut fydd y fenter yn cael ei gwerthuso?

Mae sawl ffordd o werthuso'r prosiect hwn.

Y dull gwerthuso cyntaf yw ystyried pa newidiadau, os o gwbl, sy'n cael eu gwneud i'r ffordd y mae gweithredwyr pyllau nofio preifat yn mynd o amgylch eu gwaith o ganlyniad i'r fenter. Gellir asesu newidiadau mewn ymddygiad drwy gymharu canfyddiadau o'r ymweliad cyntaf â'r safle â chanfyddiadau yn ystod yr ail ymweliad (os cyflwynir hysbysiad gorfodi) a'r ymweliad terfynol, ar ddiwedd y rhaglen. Gellir nodi newidiadau i'r trefniadau, ynghyd ag addasiadau i Asesiadau Risg neu Gynlluniau Gweithredu a wnaethpwyd er mwyn lleihau'r risg o ddamweiniau. Byddai'r rhain yn awgrymu bod yr ymyriad wedi cael effaith gadarnhaol.

Yr ail ddull o werthuso yw ystyried nifer y damweiniau ar y safle sydd wedi bod yn gysylltiedig â'r pwll nofio neu'r ardal yn union o'i amgylch cyn ac ar ôl yr ymyriad. Gellir codi'r ffigurau hyn o hysbysiadau RIDDOR a anfoni'r i'r awdurdod lleol ac o gofnodion yn y Llyfr Damweiniau sy'n ymwneud â damweiniau nad yw'n ofynnol hysbysu unrhyw un yn eu cylch. Byddai lleihad yn nifer y damweiniau hysbysadwy a'r damweiniau nad ydynt yn hysbysadwy yn awgrymu bod yr ymyriad wedi cael effaith gadarnhaol. Dylid nodi y gallai nifer y damweiniau y rhoddir gwybod amdanynt fod yn isel cyn ac ar ôl yr ymyriad, ond nid yw hyn yn golygu nad oes gwerth i'r ymyriad. Gall anafiadau difrifol i nofiwr neu farwolaeth ddigwydd o ganlyniad i un weithred neu un digwyddiad esgeulus ar ran gweithredwr y pwll nofio neu'r nofiwr ei hun, ac mae'r ymyriad hwn yn ceisio rhoi

sylw i'r digwyddiadau hyn, yn ogystal â'r mân ddamweiniau hynny nad ydynt yn cael effaith mor ddifrifol.

7. A fydd y fenter yn cynnig gwerth am arian?

Mae'r fenter hon yn cyfuno menter annibynnol gan Her Iechyd Cymru a menter orfodaeth dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974. Ar wahân i gostau cynhyrchu a dosbarthu taflenni, mae'r costau eraill sy'n gysylltiedig â'r fenter i gyd yn gostau sy'n rhan o gyllideb orfodaeth adran iechyd yr amgylchedd. Yn y prosiect peilot cynhyrchwyd 500 o daflenni, am gost o £140. O ystyried cyn lleied y mae'n ei gostio i weithredu'r fenter a'r manteision a all ddeillio ohoni, awgrymir bod y fenter hon yn cynnig gwerth da am arian.

Pennod 3

Diogelwch mewn Pyllau Nofio Preifat – Cynyddu ymwybyddiaeth o'r risg o ddamweiniau ac anafiadau mewn pyllau nofio preifat.

Yr Ymgyrch

Ymgyrch, sy'n gysylltiedig â rhaglen ymweliadau gorfodaeth, er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r risg o ddamweiniau ac anafiadau mewn pyllau nofio preifat ac yn union o'u hamgylch ymhlith gweithredwyr y pyllau a'u defnyddwyr.

Paratoi ar gyfer y fenter

1. Cyn dechrau'r fenter dylai'r awdurdod lleol baratoi'r cyngor y mae'n bwriadu ei roi i'r grwpiau targed. Bydd angen dau wahanol fath o gyngor, y naill wedi ei dargedu tuag at ddefnyddwyr y pyllau a'r llall wedi ei dargedu tuag at y gweithredwyr. Mae'r taflenni cyngor a ddefnyddiwyd gan yr awdurdod peilot, Cyngor Bro Morgannwg, i'w gweld fel Atodiad 1 ac Atodiad 2, ar gyfer defnyddwyr a gweithredwyr yn y drefn honno. Awgrymir y dylai'r ddau fath hyn o daflenni cynghori gael eu rhoi ar wefan yr awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod cymaint o bobl ag sy'n bosib yn gallu eu gweld.

2. Dylai adran iechyd yr amgylchedd edrych ar ei hadroddiadau Damweiniau RIDDOR a nodi unrhyw ddamweiniau hysbysadwy sydd wedi digwydd yn unrhyw rai o'r pyllau nofio preifat sydd yn ei hardal weinyddol yn ystod cyfnod penodol. Dylid defnyddio'r un cyfnod er mwyn nodi damweiniau sydd wedi digwydd mewn pyllau nofio preifat neu o amgylch pyllau nofio preifat ac sydd wedi eu cofnodi yn y Llyfr Damweiniau ym mhob safle sydd wedi ei dargedu er mwyn cael darlun clir o'r risg y rhoddir sylw iddi drwy'r ymyriad.

3. Er bod hon yn fenter sy'n seiliedig ar orfodaeth nid oes unrhyw fwriad i drin gweithredwyr pyllau nofio preifat fel troseddwyr. Awgrymir felly bod llythyr yn cael ei anfon at bob gweithredwr cyn dechrau'r fenter, yn eu hysbysu ynglŷn â'r fenter arfaethedig ac yn eu hysbysu hefyd ynglŷn â'u cyfrifoldebau a lle gellir cael gwybodaeth. Mae copi drafft o lythyr enghreifftiol, fel yr un a ddefnyddiwyd yn y prosiect peilot, i'w weld yn Atodiad 3. Er mwyn sicrhau cysondeb wrth archwilio'r safleoedd awgrymir bod Ffurflen Archwilio'n cael ei defnyddio wrth archwilio pob pwll nofio preifat. Mae'r ffurflen archwilio a ddefnyddiwyd yn y prosiect peilot i'w gweld fel Atodiad 4.

4. Cyn dechrau'r fenter mae angen sicrhau bod cyflenwad digonol o daflenni sy'n darparu gwybodaeth i'r cyhoedd ar gael. Awgrymir y dylid gadael y taflenni hyn mewn man lle gall pobl helpu eu hunain iddynt yn y mannau canlynol
    - ystafelloedd newid pyllau nofio mewn gwestai a chlybiau hamdden,
    - ardaloedd cyhoeddus mewn parciau gwyliau a safleoedd gwersylla
    - gwefan yr awdurdod lleol
    - llyfrgelloedd
    - Canolfannau Gwybodaeth i Ymwelwyr

    ac y dylid eu cynnwys yn y canlynol
    - pecynnau aelodaeth clybiau hamdden
    - pecynnau croeso mewn parciau gwyliau

- waledi gwybodaeth mewn gwestai
- carafannau gwyliau cyn i bobl newydd ddod iddynt

Nid yw'r rhestrau hyn yn hollgynhwysfawr nac yn gyfyngedig.

Gweithredu'r Fenter

5. Ar ddyddiad a bennwyd ymlaen llaw dylai'r awdurdod lleol ddechrau cynnal ymweliadau archwilio a chynghori gan ymweld â phyllau nofio preifat yn ei ardal. Dylid cynnal yr archwiliadau hyn dros gyfnod byr o amser, er mwyn sicrhau bod modd cymharu canlyniadau gwahanol safleoedd. Bydd rhai o'r ymweliadau ar adeg wahanol i'r archwiliadau blaenoriaeth asesu risg a wneir dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, a dylid addasu'r rhaglen archwilio er mwyn ystyried hyn. Yn ystod yr ymweliad archwilio dylai'r swyddog archwilio asesu faint o wybodaeth sydd gan weithredwr y pwll nofio a'r staff sy'n gweithio o amgylch y pwll. Dylid adolygu'r Asesiad Risg, y Cynllun Gweithredu Arferol a'r Cynllun Gweithredu mewn Argyfwng ac ystyried pa mor ddigonol ydynt o ran damweiniau ac anafiadau o amgylch y pwll nofio. Dylid adolygu'r llyfr damweiniau hefyd, a dylid edrych ar fanylion damweiniau a gofnodwyd o amgylch y pwll yn ystod yr un cyfnod ag a ddefnyddiwyd ar gyfer damweiniau RIDDOR y rhoddwyd gwybod amdanynt (gweler paragraff 2 uchod). Dylid cyflwyno Hysbysiadau Gorfodi lle bo angen.

6. Lle cyflwynwyd Hysbysiadau Gorfodi o ganlyniad i'r ymweliad archwilio, dylid cynnal ail archwiliad ar ddiwedd y cyfnod cydymffurfio yn y dull arferol.

Gwerthuso'r Fenter

7. Ar adeg y cytunwyd arni ymlaen llaw ar ôl yr ymweliad archwilio cychwynnol dylid archwilio pob pwll nofio unwaith yn rhagor er mwyn gwerthuso llwyddiant neu fethiant yr ymyriad. Dylai'r swyddog archwilio asesu unwaith yn rhagor faint o wybodaeth sydd gan weithredwr y pwll a'r staff sy'n gweithio o amgylch y pwll a gwneud asesiad goddrychol er mwyn canfod a yw hyn wedi gwella. Dylai'r swyddog hefyd ystyried a yw arferion a threfniadau eraill wedi gwella. Dylai ef neu hi archwilio'r Llyfr Damweiniau er mwyn gweld a fu unrhyw ddigwyddiadau yn y pwll neu o amgylch y pwll ers dechrau'r fenter, ac os bu unrhyw ddigwyddiadau o'r fath, dylai geisio sefydlu achos y ddamwain, h.y. a gafodd ei hachosi gan weithred neu esgeulustod ar ran gweithredwr y pwll neu ar ran defnyddiwr y pwll. Gellir defnyddio'r holl wybodaeth i asesu a yw'r fenter wedi arwain at fwy o ymwybyddiaeth a gwell ymddygiad ymhlith y grŵp targed cyntaf, sef gweithredwyr pyllau nofio.

8. Mae'n anos asesu effaith y fenter ar ymddygiad peryglus yr ail grŵp targed, sef defnyddwyr pyllau nofio. Drwy ystyried damweiniau a gofnodwyd yn y Llyfr Damweiniau a'r hyn a'u hachosodd gallai'r awdurdod benderfynu a yw defnyddwyr pyllau nofio wedi newid eu patrymau ymddygiad i'r graddau bod eu hymddygiad i'w weld yn llai peryglus, ond cyn y gellir gwneud hyn bydd angen i'r ymddygiad amlygu ei hun mewn damwain a gofnodwyd yn y llyfr damweiniau. Gellir defnyddio nifer y taflenni a gymerwyd gan bobl o'u gwirfodd hefyd fel mesur gwerthuso, gan gymryd y bydd y rhai hynny sy'n cymryd y taflenni yn eu darllen ac y bydd eu hymwybyddiaeth o risg yn gwella, ac y byddant wedyn yn eu pasio ymlaen i rywun arall a allai hefyd elwa o'u darllen.

Atodiad 1

Diogelwch mewn Pyllau Nofio (Aelodau o'r Cyhoedd)

Mae angen ichi ymddwyn yn synhwyrol wrth ymweld â phwll nofio, yn y pwll ei hun ac yn yr ardal o'i gwmpas, a gwneud yn siŵr bod plant yn cael eu goruchwylio drwy'r adeg. Gofynnwch beth yw rheolau diogelwch eich pwll nofio. Gallech edrych am bosteri neu daflenni defnyddiol, neu ofyn am wybodaeth gan un o arolygwyr y pwll.
Gofynnwch i'ch plentyn wylio beth mae'r achubwyr bywydau'n ei wneud. Pam eu bod yn chwythu chwiban ac yn dweud y drefn? Pa fathau o bethau sy'n beryglus yn y pwll nofio?

Dyma rai awgrymiadau defnyddiol er mwyn sicrhau eich bod yn ddiogel bob amser wrth ddefnyddio'r pwll nofio.

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod pa mor ddwfn yw'r dŵr.
- Dylech bob amser nofio o fewn eich gallu.
- Peidiwch ag ymddwyn yn afreolus, oherwydd gall hyn fod yn beryglus. Mae rheolau'r pwll wedi eu creu er mwyn sicrhau eich diogelwch chi a defnyddwyr eraill.
- Dylech wrando ar yr Achubwr Bywydau bob amser a chofio y gallai ymddygiad gwirion, hyd yn oed am eiliad, roi bywyd rhywun yn y fantol.
- Os ydych yn dioddef o gyflwr meddygol, fel epilepsi, asthma, diabetes neu anhwylder y galon, ceisiwch nofio gyda ffrind. Os ydych ar eich pen eich hun rhowch wybod i'r Achubwyr Bywydau sydd ar ddyletswydd er mwyn iddo fod yn ymwybodol o hyn pe bai argyfwng.
- Peidiwch byth â nofio ar ôl pryd mawr o fwyd nac os byddwch dan ddylanwad alcohol.
- Rhaid i blant dan wyth oed fod ag oedolyn cyfrifol gyda hwy yn y pwll nofio bob amser.
- Os byddwch yn gweld rhywun mewn trafferthion, galwch am gymorth ar unwaith.

Nid yw hon yn rhestr hollgynhwysfawr, ond os cadwch at y rheolau syml hyn dylech gael amser diogel a phleserus yn y pwll nofio.

Os hoffech gael ein gwasanaeth gallwch ein ffonio, ysgrifennu atom neu anfon ffacs neu e-bost. Ein horiau agor yw 8.30am - 5.00pm o ddydd Llun i ddydd Iau, ac 8.30am - 4.30pm ar ddydd Gwener.

Ffôn: 01446 709105
Ffacs: 01446 709449
E-bost: RegServ@valeofglamorgan.gov.uk
Cyfeiriad: Swyddfeydd Dinesig, Holton Road, Y Bari, Bro Morgannwg, CF63 4RU.

Atodiad 2

Cyngor Pwysig ynglŷn â Diogelwch i Weithredwyr Pyllau Nofio

Mae nofio'n sgil ac ymarfer corff pwysig i filoedd o oedolion a phlant. Yn anffodus, mae tua 10 person yn boddi mewn pyllau nofio bob blwyddyn. Mae unrhyw achos o foddi yn dod â thon o dristwch yn ei sgîl, ond yr hyn sy'n gwneud pethau'n waeth yw bod y rhan fwyaf o'r achosion hyn yn rhai y gellid bod wedi eu hosgoi pe bai gweithredwyr pyllau nofio wedi cymryd mwy o ragofalon, pe bai'r nofwyr wedi bod yn fwy gofalus, neu pe bai cyfuniad o'r ddau hyn wedi eu gweithredu. Er hyn, mae pyllau nofio'n lleoedd llawer diogelach i nofio ynddynt na dŵr agored, sy'n hawlio llawer mwy o fywydau na phyllau nofio.

Ni all neb ragweld pa bryd y bydd trychineb yn digwydd, a rhaid i weithredwyr fod yn wyliadwrus iawn nid yn unig wrth weithredu rhagofalon ond hefyd wrth gynnal a chadw pyllau.

Ceir rhestr wirio fer isod er mwyn helpu i sicrhau diogelwch pyllau nofio. Mae pyllau nofio'n ardaloedd risg uchel ac mae'n ofynnol ichi gymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad yw damweiniau'n digwydd. Er mwyn cael rhagor o gyngor, cynghorir gweithredwyr pyllau nofio yn gryf i ddarllen llyfryn yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch "Managing Health and Safety in Swimming Pools" HSG179, sydd ar gael gan HSE Books, PO Box 1999, Sudbury, Suffolk CO10 6FS, ffôn 01787 881165, ffacs 01787 313995. ISBN 0 7176 2686 5, pris £10.95.

GWAITH PAPUR

Dylech fod â pholisi diogelwch ar gyfer eich busnes. Dylai fod wedi ei arwyddo a dylai'r dyddiad y cafodd ei arwyddo fod wedi ei nodi arno.

Dylech fod ag asesiadau risg a dylai rhai ohonynt ymwneud â'r pwll nofio.

Bydd yr asesiadau risg yn eich arwain i lunio trefniadau a chyfarwyddiadau ar gyfer staff. Byddant hefyd yn arwain at gydnabod yr angen am hyfforddiant.

Bydd un math arbenigol o asesiad risg yn ymwneud â "rheoli sylweddau peryglus i iechyd" neu COSHH. Mae'n rhaid ichi wneud y rhain er mwyn dangos y rhagofalon sy'n cael eu cymryd wrth ddefnyddio cemegolion penodol h.y. y rhai hynny a ddefnyddir mewn pyllau nofio.

Yn ogystal â pholisi ac asesiadau risg dylech fod â threfniadau cyfarwyddyd ar ffurf dogfen ysgrifenedig yn dwyn y teitl Trefniadau Gweithredu Diogelwch mewn Pyllau Nofio, sy'n cynnwys Cynllun Gweithredu Arferol a Chynllun Gweithredu mewn Argyfwng ar gyfer y pwll nofio, y cyfleusterau newid ac offer a chyfarpar cysylltiedig.

Cynllun Gweithredu Arferol:-

- **Manylion am y pwll/pyllau nofio** – yn cynnwys mesuriadau, dyfnder, nodweddion, cyfarpar a chynllun o'r adeilad.
- **Ffactorau risg posib** – mae angen dangos eich bod yn sylweddoli beth yw'r prif beryglon a pha ddefnyddwyr sy'n wynebu'r risg fwyaf cyn y gellir nodi trefniadau gweithredu diogel.
- **Delio gyda'r cyhoedd** – trefniadau ar gyfer cyfathrebu negeseuon diogelwch i gwsmeriaid, gofalu am gwsmeriaid, rheolau ochr pwll ar gyfer y cyhoedd ac achubwyr bywydau, rheoli mynediad.
- **Dyletswyddau a chyfrifoldebau achubwyr bywydau** – a gofynion goruchwylio arbennig ar gyfer cyfarpar, ac ati; hyfforddiant ar gyfer achubwyr bywydau; a nifer yr achubwyr bywydau ar gyfer gweithgareddau penodol.
- **Systemau gweithio** – gan gynnwys llinellau goruchwylio, trefniadau galw allan, cylchdroi gwaith ac uchafswm oriau gweithio ar ochr y pwll.
- **Systemau gweithredol** – rheoli mynediad at bwll neu byllau na fwriedir iddynt gael eu defnyddio, gan gynnwys defnyddio gorchuddion pyllau nofio'n ddiogel.
- **Cyfarwyddiadau gweithio manwl** – gan gynnwys trefniadau glanhau pyllau nofio, gosod cyfarpar yn ddiogel a'u harchwilio, trefniadau plymio a pharatoi'r pwll yn barod ar gyfer gala nofio.
- **Cyfarpar a hyfforddiant Cymorth Cyntaf**
- **Manylion systemau larwm, cyfarpar ar gyfer argyfwng a chynnal a chadw** – pob system larwm a chyfarpar ar gyfer argyfwng a ddarperir, gan gynnwys gweithrediad, lleoliad, camau i'w cymryd ar ôl clywed y larwm, trefniadau profi a chynnal a chadw.
- **Amodau llogi i sefydliadau allanol.**

Cynllun Gweithredu mewn Argyfwng:-

Camau i'w cymryd mewn argyfwng y gellir ei ragweld, er enghraifft:

- gormod o bobl yn y dŵr
- ymddygiad afreolus (gan gynnwys trais tuag at y staff)
- dŵr ddim yn glir
- tân (neu glywed y larwm ar gyfer gwagu'r adeilad)
- bygythiad o fom
- nam ar y goleuadau
- nam strwythurol
- nwyon gwenwynig
- anaf difrifol i nofwyr
- darganfod rhywun wedi ei anafu yn y dŵr

Dylai'r trefniadau nodi'n glir sut i gael pobl allan o'r dŵr neu allan o'r adeilad, os oes angen. Dylai'r rheolwyr sicrhau bod :

- pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant cymwys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfarwydd â threfniadau o'r fath
- hysbysiadau'n cael eu harddangos er mwyn hysbysu'r cyhoedd ynglŷn â'r trefniadau
- drysau mynd allan, arwyddion, cyfarpar ymladd tân a bocsys torri gwydr i alw am gymorth lle bônt wedi eu darparu, yn cael eu harchwilio'n rheolaidd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw beth yn eu rhwystro rhag gweithio
- pob allanfa dân yn gweithio heb allwedd bob amser y mae rhywun yn yr adeilad

Sylwer: Dylid cofnodi'r holl gamau hyn. Os nad ydych yn siŵr sut i wneud unrhyw un o'r prosesau hyn cysylltwch â'r adran Iechyd yr Amgylchedd i ofyn am gyngor.

RHYBUDDION I'R CYHOEDD

Mae sawl ffordd o gynghori'r cyhoedd sy'n defnyddio'ch pwll.

Dylid cael arwydd yn nodi pwyntiau cyffredinol y "dylid" eu gwneud ac "na ddylid" eu gwneud, neu reolau'r pwll. Gallai'r rhain gynnwys:-

- annog ymddygiad cyfrifol h.y. dim rhedeg, dim bomio
- rhybuddio nad oes neb yn goruchwylio'r pwll ac na ddylai unrhyw un fod yn nofio ar ei ben ei hun
- nodi na ddylid caniatáu plant dan bymtheg oed os nad yw'r pwll yn cael ei oruchwylio
- nodi bod y drysau mynediad i'w cadw ar gau a pheidio â gadael i blant nad ydynt dan oruchwyliaeth fynd at y pwll
- dim gwydr o amgylch y pwll
- dim teganau aer na fflotiau mawr
- dim plymio
- dim nofio dan ddylanwad alcohol nac ar ôl prydau bwyd mawr
- gwybodaeth am leoliad y botwm argyfwng

Dylid gosod yr arwyddion hyn yn yr ystafell newid a dylid eu harddangos mewn lle amlwg ar ochr y pwll.

Gellir nodi rheolau'r pwll ar ffurf taflen hefyd i'w chynnwys yn y pecyn gwybodaeth yn yr ystafell neu i'w dosbarthu yn y dderbynfa.

Dylid rhoi rhybudd arall ar y drysau mynediad yn nodi nad oes unrhyw un yn goruchwylio'r pwll nofio ac na chaniateir mynediad i blant dan 15 oed heb oruchwyliaeth.

Yn ychwanegol at yr arwydd cyffredinol dylech osod arwyddion "Dim Plymio" ar ffurf llun i gydymffurfio â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Arwyddion a Signalau Diogelwch) 1996.

Dylai arwyddion cyngor ger y botwm argyfwng nodi beth i'w wneud a beth i'w ddisgwyl.

Gall y staff sy'n goruchwylio'r pwll neu staff y dderbynfa roi cyfarwyddiadau llafar hefyd (dylai hyn fod yn ychwanegol at y rhagofalon a nodwyd uchod ac nid yn eu lle). Rhaid i'r staff deimlo'n hyderus a dylent fod wedi eu hyfforddi i wybod bod ganddynt yr awdurdod sydd ei angen i roi cyfarwyddiadau.

AMGYLCHEDD OCHR Y PWLL

Mae rheoli iechyd a diogelwch yn effeithiol mewn unrhyw bwll nofio yn dechrau â chynllunio gofalus. Bydd angen i bawb sy'n ymwneud â chynllunio pyllau newydd neu ddiweddaru pyllau sy'n bodoli'n barod roi blaenoriaeth uchel i sicrhau eu bod yn darparu cyfleustra diogel i nofwyr ac i'r staff. Mae tri pheth y mae'n ofynnol ei ystyried er mwyn cyflawni hyn:

- dylid cynllunio cyfosodiad neuadd y pwll, a thanc y pwll (gan gynnwys ei fesuriadau, proffil ac unrhyw nodweddion dŵr) er mwyn sicrhau bod modd defnyddio'r pwll yn ddiogel a'i oruchwylio yn gwbl ddidrafferth heb unrhyw drefniadau rheoli cymhleth neu gostus;

- yn yr un modd dylai cyfosodiad yr ardaloedd ategol, gan gynnwys yr ystafelloedd newid, y lle cadw dillad, y cawodydd a'r toiledau, fod wedi ei gynllunio fel bod modd eu defnyddio'n ddiogel;
- dylid sicrhau mai'r elfennau strwythurol, y deunyddiau, y gorffeniadau a'r manylion a ddefnyddir wrth adeiladu'r mannau hyn, gan gynnwys rhan gaeedig, tanc a chyfarpar y pwll, a'r ffordd y maent yn cael eu gosod at ei gilydd yw'r rhai mwyaf priodol er mwyn sicrhau amgylchedd ffisegol diogel i'w ddefnyddio.

Gellir cael rhagor o wybodaeth yn y llyfryn y cyfeiriwyd ato uchod gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, 'Managing Health and Safety in Swimming Pools'.

HYFFORDDIANT

Bydd gofynion hyfforddi amrywiol yn deillio o'ch dadansoddiad o'ch system ddiogelwch, er enghraifft:-

- cyngor staff y dderbynfa i westeion ac ymateb i larymau
- dyletswyddau rheolwyr a goruchwylwyr y pwll
- sgiliau cymorth cyntaf a dadebru sydd ar gael pan fo'r pwll ar agor
- dylai gweithredwyr cyfarpar pyllau nofio gael eu hyfforddi yn unol â gofynion y Sefydliad Rheoli Chwaraeon a Gweithgareddau Hamdden (IRSM)

Gellir cael rhagor o wybodaeth yn y llyfryn y cyfeiriwyd ato uchod gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, 'Managing Health and Safety in Swimming Pools'.

TREFNIADAU GORUCHWYLIO ER MWYN DIOGELU DEFNYDDWYR PYLLAU NOFIO

Mae angen rhywfaint o oruchwyliaeth ym mhob pwll, ond rhaid i'r trefniadau gael eu pennu gan asesiad risg. Bydd angen i'r asesiad risg a wneir mewn pwll nofio gynnwys nid yn unig y peryglon ffisegol ond hefyd y peryglon hynny sy'n ymwneud â nofwyr a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â nofio. Pan fo gweithredwyr pyllau'n asesu'r angen am oruchwyliaeth bydd angen iddynt ystyried:

- amgylchiadau lleol;
- strwythur a chyfarpar y pwll;
- y modd y defnyddir y pwll a nodweddion y rhai hynny a allai fod yn ei ddefnyddio

Sut alla i gael mwy o wybodaeth?

Gellir cael rhagor o wybodaeth yn y llyfryn y cyfeiriwyd ato uchod gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, 'Managing Health and Safety in Swimming Pools'.

Gallwch hefyd gysylltu ag Adran Fasnachol Adran Iechyd yr Amgylchedd ar:
Ffôn: 01446 709105
Ffacs: 01446 709449
E-bost: RegServ@valeofglamorgan.gov.uk

Atodiad 3

Llythyr enghreifftiol at Weithredwyr Pyllau Nofio cyn dechrau'r Fenter

Mae nofio'n sgil ac ymarfer corff pwysig i filoedd o oedolion a phlant. Yn anffodus, mae tua 10 person yn boddi mewn pyllau nofio bob blwyddyn. Mae unrhyw achos o foddi yn dod â thon o dristwch yn ei sgîl, ond yr hyn sy'n gwneud pethau'n waeth yw bod y rhan fwyaf o'r achosion hyn yn rhai y gellid bod wedi eu hosgoi pe bai gweithredwyr pyllau nofio wedi cymryd mwy o ragofalon, pe bai'r nofwyr wedi bod yn fwy gofalus, neu pe bai cyfuniad o'r ddau hyn wedi eu gweithredu. Er hyn, mae pyllau nofio'n lleoedd llawer diogelach i nofio ynddynt na dŵr agored, sy'n hawlio llawer mwy o fywydau na phyllau nofio.

Ni all neb ragweld pa bryd y bydd trychineb yn digwydd a rhaid i weithredwyr fod yn wyliadwrus iawn nid yn unig wrth weithredu rhagofalon ond hefyd wrth gynnal a chadw pyllau.

Mae Adran Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Bro Morgannwg yn bwriadu gwneud mwy o archwiliadau iechyd a diogelwch dirybudd mewn sefydliadau sydd â phyllau nofio yn ystod 2005/2006, ond ni ddylai gweithredwyr pyllau nofio aros am archwiliad cyn gwneud rhywbeth. Mae croeso i unigolion gysylltu ag adran Iechyd yr Amgylchedd er mwyn cael cyngor, ond cyfrifoldeb y gweithredwyr yw sicrhau diogelwch eu sefydliadau.

Mae pyllau nofio'n ardaloedd risg uchel ac mae'n ofynnol ichi gymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad yw damweiniau'n digwydd. Er mwyn cael rhagor o gyngor, cynghorir gweithredwyr pyllau nofio yn gryf i ddarllen llyfryn yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, "Managing Health and Safety in Swimming Pools" HSG179, sydd ar gael gan HSE Books, PO Box 1999, Sudbury, Suffolk CO10 6FS, ffôn 01787 881165, ffacs 01787 313995. ISBN 0 7176 2686 5, pris £10.95.

Atodiad 4

ARCHWILIO PWLL NOFIO

Enw:
Cyfeiriad:

Rhif Ffôn:
Swyddog Archwilio:

Person y Siaradwyd ag ef/hi:
Dyddiad:

STRWYTHUR

Lleoliad y pwll nofio:

Math: (Dan Do / Awyr Agored)

Hyd:

Lled:

Dyfnder (Pen dwfn):

Dyfnder (Pen bas):

Graddiant y pwll:

Agorfeydd gwaelod y pwll:
(maint agoriad y gril, cyflymder)

Dull o atal mynediad heb ganiatâd:
(uchder ffens, giât yn cau ei hun, mecanwaith ar gyfer mynediad)

Nifer y nofwyr a ganiateir:

O AMGYLCH Y PWLL

Llawr llithrig:

Teils wedi cracio / yn rhydd:

Ymyl o liw gwahanol:

CYFLEUSTERAU

Grisiau mynediad:

Plymio:

Llithren:

Cawodydd:

HYSBYSIADAU

Dyfnder (Pen dwfn): Ymddygiad:

Dyfnder (Pen bas): Dim plymio:

Camau i'w cymryd mewn argyfwng:

ACHUB BYWYDAU

Goruchwyliaeth: Manylion (Cymwysterau):

Cymorth Cyntaf: Manylion (Cymwysterau):

Cyfarpar achub bywydau:

Larwm argyfwng:
(lleoliad, a yw'n canu mewn man lle gall rhywun ei chlywed?)

Ffôn argyfwng:

ANSAWDD DŴR

Ymddangosiad:

Hidlo:

Math o ddiheintydd:

Profion dŵr: Pa mor aml: Cofnodion:

pH: Clorin rhydd:

Cymhwysedd:

Hyfforddiant:

STORIO CEMEGOLION

Cemegolion sy'n cael eu defnyddio / storio:

Asesiad COSHH: Cyfarpar Diogelu Personol:

STORFA – Gellir ei chloi: Yn cael ei hawyru:

TRYDAN

Foltedd isel : RCD :

Goleuadau : Dŵr ger switshis :

AMRYWIOL

Cyfleusterau newid :

Diogelwch (Cloi dros nos):

Defnydd (Cyhoeddus / Clwb Preifat):

Llogi ar gyfer partïon:

Caniateir Alcohol / Bwyd:

Cynllun Gweithredu Arferol / Cynllun Gweithredu mewn Argyfwng:

BRASLUN